## Tasg 1

# Tica masala os gwelwch yn dda!

1. Beth yw ffurf y testun ar y brif sgrin?

| | | | |
|---|---|---|---|
| a. | stori fer | b. | erthygl |
| c. | sgript newyddion ar gyfer y teledu | ch. | sgript newyddion ar gyfer y radio |

2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

| | | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|---|
| 1. | Syrthiodd yr wylan i mewn i'r cyrri yn Tewkesbury. | ☐ | ☐ |
| 2. | Mae'n bosib bod yr wylan wedi cael ei denu gan ddarn o gig yn y cyrri. | ☐ | ☐ |
| 3. | Roedd yr wylan yn frown llachar ar ôl bod yn y cyrri. | ☐ | ☐ |
| 4. | Cafodd hi ei golchi mewn bath o ddŵr cynnes. | ☐ | ☐ |
| 5. | Mae'r wylan wedi cael ei rhyddhau. | ☐ | ☐ |

Cywirwch y brawddegau anghywir isod.

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

3a. Mae tair cyffelybiaeth yn y darn. Ysgrifennwch nhw isod.

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

3b. Meddyliwch am 3 cyffelybiaeth fwy gwreiddiol i ddisgrifio llygaid a lliw'r aderyn cyn ac ar ôl iddi gael y driniaeth.

4. Yn y llinell olaf, mae'r awdur yn defnyddio'r ddihareb Gymraeg:

**Nid aur yw popeth melyn.**

Beth yw ystyr y ddihareb? Ydy hi'n addas ar gyfer y darn hwn? Pam?